Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 2 Mai 2018
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Mererid Hopwood, Awen Iorwerth, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Delyth Murphy, Yr Athro Gwynedd Parry, Yr Athro Eleri Pryse

Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Dr Hywel Griffiths, Dr Gwawr Jones, Daniel Tiplady, Sara Whittam, Dr Catrin Haf Williams

Aelodau (Myfyrwyr): Laura Beth Davies, Gwenllian Jones, Mirain Roberts, Tomos Watson

Aelodau (Addysg Bellach): Bryn Hughes Parry, Carys Swain

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Rhian Jones (Rheolwr Academaidd) Dr Lowri Morgans (Rheolwr Academaidd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Carwyn Jones, Yr Athro Lisa Lewis, Dr Euryn Roberts, Llŷr Roberts, Sioned Roberts, Dr Elin Royles, Yr Athro Enlli Thomas, Dr Prysor Williams, Dylan Davies, Lois Nash, Steffan Nicholas

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Estynnwyd croeso i'r aelodau newydd, Awen Iorwerth a Bryn Hughes Parry, i'w cyfarfod cyntaf. Adroddwyd bod Dr Euryn Roberts yn aelod newydd hefyd. 1.3. Croesawyd Dr Hywel Griffiths ar ran Dr Elin Royles a Dr Gwawr Jones ar ran yr Athro Lisa Lewis. 1.4. Croesawyd yr Athro Siwan Davies yn ôl o'i chyfnod yn gweithio dramor. 1.5. Croesawyd Rhian Jones, Rheolwr Academaidd, i'w chyfarfod cyntaf. 1.6. Estynnodd y Prif Weithredwr llongyfarchiadau i'r Dr Hefin Jones ar ennill Medal Wyddoniaeth Eisteddfod		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Genedlaethol 2018. 1.7. Nodwyd llongyfarchiadau i'r Athro Eleri Pryse, yr Athro Gwynedd Parry a'r Athro Deri Tomos (cyn-aelod o'r Bwrdd Academaidd) ar eu hethol yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2018	3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	4.1. Cafwyd diweddariad cyffredinol gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau. Adroddwyd bod Dr Dylan Phillips yn cynnal trafodaethau gyda'r sefydliadau ynghylch y cylch nesaf o grantiau pynciol. Yn amodol ar gyllideb y Coleg y bwriad yw amlinellu y posibilrwydd o grantiau pynciol 3-5 mlynedd a thrafod hynny ar lefel uwch yn y prifysgolion. 4.2. Adroddwyd yn dilyn ymadawiad yr uwch reolwr, Dr Gwennan Schiavone, adolygwyd y strwythur rheolwyr a gwnaed tri phenodiad ar lefel Rheolwr Academaidd, sef Rhian Jones, Mari Fflur a Dr Lowri Morgans. 4.3. Adroddwyd bod y diwygiadau i Gyfansoddiad y Coleg wedi'u cymeradwyo gan y Cyfarfod Blynyddol ar 7 Mawrth 2018 ac wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau. 4.4. Yn sgil y newid i Gyfansoddiad y Coleg adroddwyd y byddai Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant y Coleg yn sicrhau y byddai 12 cyfarwyddwr annibynnol yn adlewyrchu rhychwant o arbenigeddau a fyddai'n adlewyrchu cyfrifoldebau ehangach y Coleg. 4.5. Adroddwyd bod cylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd a drafodwyd yng nghyfarfod 7 Chwefror 2018 ac a		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr bellach yn weithredol. 4.6. Adroddwyd ymhellach bod ymgynghoriad technegol hyd at fis Gorffennaf mewn perthynas â sefydlu'r corff newydd ôl-16 yng Nghymru (PCET). Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau ynghylch perthynas gyllido'r Coleg gyda'r corff newydd. 4.7. Cafwyd trafodaeth ynghylch datblygu'r cyswllt ffurfiol rhwng y Coleg ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW). 4.8. Cafwyd diweddariad ar ehangu cyfrifoldebau'r Coleg i faes addysg bellach gan y Cofrestrydd. Nodwyd bod y Grŵp Cynllunio Addysg Bellach, a gadeirir gan y Prif Weithredwr, wedi cwrdd am yr eildro i ystyried papur oedd yn amlinellu fframwaith i ddrafftio cynllun gweithredu. 4.9. Diolchwyd i Laura Beth Davies (cynrychiolydd myfyrwyr ôl-raddedig) am ei chydweithrediad gydag agweddau myfyrwyr ym maes addysg bellach. 4.10. Croesawyd y cam o adnabod arbenigwyr pwnc addysg bellach i ddatblygu adnoddau. 4.11. Nodwyd rhai o'r heriau mwyaf, gan gynnwys y ffaith nad yw nifer o'r cyrff dyfarnu yn y meysydd galwedigaethol yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.		
5. Materion y myfyrwyr (Eitemau 5a/b)	5.1. Cyflwynwyd ymateb i bapur diwethaf y myfyrwyr ar hyrwyddo adnoddau cyfrwng Cymraeg gan Dr Lowri Morgans. 5.2. Yn dilyn y cyflwyniad trafodwyd gwahanol adnoddau a thrafodwyd hyrwyddo adnoddau'r Coleg ar hyd y sectorau addysg uwch ac addysg bellach yn ogystal. 5.3. Cyflwynwyd papur trafod y myfyrwyr ar ddiffinio gofynion modiwl Cymraeg gan Tomos Watson. 5.4. Yn dilyn trafodaeth nodwyd:		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	• Bod y Cynllun Academaidd newydd yn parhau â'r cynnydd o ddatblygu adnoddau • Dylid nodi lefel y ddarpariaeth yn glir yn y grantiau pynciol fel arfer da • Mai mater i brifysgol yw natur y ddarpariaeth i fyfyrwyr a chyfleu yn glir wrth fyfyrwyr beth yw natur y ddarpariaeth Gymraeg ar bob modiwl a gynigir • Bod y Coleg yn ymwybodol o bwysigrwydd adnoddau ac yn gweithio i adnabod bylchau y gellid eu llenwi drwy gomisiynu adnoddau newydd • Nodwyd mai cyfrifoldeb y brifysgol (ac nid darlithydd neu fyfyriwr) yw cyfieithu adnoddau fel bod angen ond gan nodi hefyd bod trawsieithu yn sgil bwysig y dylai myfyrwyr ddatblygu.		
6. Diweddariad ar yr ymgynghoriadau: (i) Darlithwyr cysylltiol a (ii) Ysgoloriaethau (Eitemau 6a/b)	6.1. Cafwyd diweddariad gan Dr Lowri Morgans ar yr ymgynghoriad i ddatblygu cynllun Darlithwyr Cysylltiol y Coleg i ddechrau fis Medi 2018. 6.2. Cafwyd diweddariad gan y Cofrestrydd ar yr ymgynghoriad Ysgoloriaethau. Adroddwyd bod sawl thema i'w codi gyda Llywodraeth Cymru i'w cytuno ar gyfer 2019/20 ymlaen: • Cynllun prif ysgoloriaethau i barhau ond lleihau nifer yr ysgoloriaethau ychydig • Budd cyd-blethu ysgoloriaethau'r Coleg gyda rhai'r prifysgolion • Mwy o hyblygrwydd yn yr ysgoloriaethau cymhelliant • Ail-ystyried cyllido ysgoloriaethau Meistr yn dilyn newidiadau yn nhrefniadau cyllido myfyrwyr. • Cyfrifoldeb dros ymgeisio a dyfarnu'r		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	ysgoloriaethau 6.3. Codwyd nifer o gwestiynau a thrafodwyd pwysigrwydd model lle mae prifysgolion yn ogystal â'r Coleg yn darparu nawdd i fyfyrwyr.		
7. Pwyllgor Cydweithio Academaidd (Eitem 9)	7.1. Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, 24 Ionawr 2018, er gwybodaeth. 7.2. Derbyniwyd adroddiad llafar ar gyfarfod 25 Ebrill 2018 gan y Prif Weithredwr. Adroddwyd y cytunwyd ar gynigion i gyllido modiwlau a gweithgareddau ar gyfer 2018/19.		
8. Ymchwil a Chyhoeddi (Eitem 10)	8.1. Nodwyd cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, 13 Chwefror 2018, er gwybodaeth. 8.2. Nodwyd y bydd angen enwebu aelodau o'r Bwrdd Academaidd i'r Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Cyfarwyddwyr i gryfhau'r berthynas rhyngddynt. 8.3. Cytunwyd i gyflwyno papur i'r cyfarfod nesaf yn amlinellu cylch gorchwyl y Pwyllgor, aelodaeth, a'r berthynas gyda'r Bwrdd Academaidd.	Papur aelodaeth i'r BA	10 Hydref 2018
9. Cyflwyniad gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd	9.1. Darparwyd cyflwyniad gan Dr Neil Hennesy a Daniel Tiplady ar ddatblygiadau Iechyd a Chwaraeon Prifysgol Metropolitan Caerdydd. 9.2. Diolchwyd iddynt am y cyflwyniad a oedd yn arddangos datblygiad dwyieithog y maes ar hyd y degawd diwethaf ac yn diwallu anghenion gweithlu'r dyfodol yng Nghymru.		
10. Ehangu mynediad a chyfranogiad (Eitem 8)	10.1. Cafwyd cyflwyniad gan Adam Jones, Swyddog Datblygu Cyflogwyr a Myfyrwyr, ar Strategaeth Ehangu Mynediad a Chyfranogiad y Coleg. 10.2. Croesawyd y strategaeth a thrafodwyd rhai agweddau i'w cynnwys yn y cynllun gweithredu. Cytunwyd y byddai'r	Cynllun Gweithredu	10 Hydref 2018

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd, er gwybodaeth, gan ymgorffori'r awgrymiadau a wnaed gan yr aelodau.		
11. Cynlluniau pynciol (Eitem 7)	11.1. Nodwyd yr amserlen ar gyfer adolygu'r cynlluniau pynciol erbyn Hydref 2018. 11.2. Cyflwynwyd y cynlluniau pynciol canlynol: • Diwydiannau Creadigol • Hanes • Ieithoedd Modern • Gwyddorau Naturiol • Gwaith Cymdeithasol • Nyrsio a Bydwreigiaeth 11.3. Yn dilyn trafodaeth lawn cymeradwywyd y cynlluniau gyda mân newidiadau. Cytunwyd i drosglwyddo unrhyw wybodaeth ychwanegol i LM.	LM i ddiwygio'r cynlluniau yn sgil gohebiaeth e-bost	Mai 2018
12. Materion yn codi	12.1. <u>Eitem 4.3: Cofnodion Bwrdd Cyfarwyddwyr.</u> Bydd cofnodion y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cael eu cylchredeg, er gwybodaeth, i'r Bwrdd Academaidd ar ôl eu cymeradwyo. 12.2. <u>Eitem 5.5: Eitem sefydlog ar ddata.</u> Bydd cyflwyniad ar ddata ac ystadegau cyfredol yn eitem sefydlog yn flynyddol. 12.3. <u>Eitem 8.3: Swyddog myfyrwyr Cymraeg llawn amser.</u> Cafwyd adroddiad ar drafodaeth ym Mhrifysgol Abertawe am gynnal refferendwm i sefydlu rôl Swyddog Materion Cymraeg llawn amser yn Undeb Myfyrwyr Abertawe.	I'w ystyried Eitem sefydlog ar ddata	Hydref 2018 Yn flynyddol
13. UFA	13.1. Nodwyd diolch myfyrwyr Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru i Bethan Wyn Davies, Swyddog Cangen Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant, am ei chymorth gyda threfnu'r Eisteddfod Ryng-golegol eleni.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	13.2. Nodwyd bod CCAUC yn rhyddhau cyllid i alluogi prifysgolion Caerdydd ac Abertawe feithrin sgiliau codio mewn ysgolion. Croesawyd y fenter o ran ehangu mynediad ac anogwyd ymestyn y bartneriaeth i sefydliadau'r gogledd a maes addysg bellach. 13.3. Mewn ymateb i gais am gynllun hyfforddiant i godi hyder staff i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg nodwyd bod y cynllun Cymraeg Gwaith yn diwallu'r union angen hwn ac y dylid cysylltu gyda Dr Owen Thomas yn y Coleg am fwy o fanylion. 13.4. Gan mai dyma oedd cyfarfod olaf cynrychiolwyr myfyrwyr 2017/18 diolchwyd iddynt am eu cyfraniad mawr eleni.		
14. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	14.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol: • 10 Hydref 2018, Prifysgol De Cymru • 6 Chwefror 2019, Prifysgol Glyndŵr • 8 Mai 2019, Prifysgol Caerdydd 14.2. Diolchwyd i Brifysgol Metropolitan Caerdydd am y croeso ac am letya'r cyfarfod.		